ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Uned: Trin Data

TGCh - Y Blynyddoedd Cynnar

Trosolwg o'r uned hon:
Dylid gwneud plant yn ymwybodol y gellir canfod gwybodaeth a gweithgareddau ar y we ac ar CD-ROM, a'u hybu i ofyn ac ateb cwestiynau am yr wybodaeth/lluniau sydd i'w gweld. Dylent siarad am ffyrdd eraill o gael gwybodaeth - er enghraifft, teledu, llyfrau etc a dechrau eu cymharu.

Cyflwynir plant i weithgareddau 'diriaethol' i gyfrif a threfnu gwrthrychau a byddant yn defnyddio cyfrifiadur/BGRh i gynhyrchu pictogramau syml. Byddant yn cael eu hybu i sgwrsio am yr wybodaeth sydd i'w gwled ac i gyfrif yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Disgwyliadau ar ddiwedd yr uned hon:

Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau: dangos ymwybyddiaeth o'r rhyngrwyd a CD-ROMs fel ffynonellau gweithgareddau a gwybodaeth. Maent yn dechrau defnyddio rhaglen graffio/pictogram syml i ddatblygu sgiliau cyfrif a rhifedd, ac yn gallu trafod yr wybodaeth yn y pictogram.

Bydd rhai disgyblion ond yn gallu: defnyddio rhaglen graffio/pictogram syml gyda chymorth a dangos peth ymwybyddiaeth y gall y rhyngrwyd a CD-ROMs ddarparu gwybodaeth.

Bydd rhai plant hefyd yn gallu: Trafod y rhyngrwyd a CD-ROMs fel ffynonellau gweithgareddau a gwybodaeth a dechrau cymharu ffyrdd eraill o ddysgu pethau e.e. llyfrau, teledu etc. Maent yn defnyddio rhaglen graffeg/pictogram syml i ddatblygu sgiliau cyfrif a rhifedd ac yn gallu trafod y pictogram gan ddechrau defnyddio geiriau fel "mwyaf", "lleiaf" etc.

ALLWEDD:

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol (DPChLlAD)	Datblygiad yr Iaith Gymraeg (DIG)	Datblygiad Creadigol (DCr)
Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (ILlC)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (GDB)	Chwarae yn yr Awyr Agored (**ChAA**)
Datblygiad Mathemategol (**DM**)	Datblygiad Corfforol (DC)	Chwarae Rôl (**ChR**)

DPChLIAD IIIC DM DIG GDB DC DCr ChAA ChR

Blynyddoedd Cynnar **Dod o Hyd i Wybodaeth a Syniadau a'u Datblygu**

Asesiad Athrawon: *Dylai'r sgiliau y mae'r plant yn eu harddangos fod yn rhan o asesu parhaus. Dylid olrhain a chofnodi cynnydd disgyblion yn unol â pholisi asesu'r ysgol, a dylid defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio unrhyw gynllunio yn y dyfodol. Darperir taflenni cofnodi ar gyfer ysgolion fel rhan ddewisol o'r Cynllun Gwaith hwn.*

Trin Data

Sgiliau TGCh	Meysydd Dysgu	Gweithgareddau a Awgrymir	Geirfa	Adnoddau	Sgiliau ar draws y Cwricwlwm
Dangos ymwybyddiaeth bod CD-ROMs a'r rhyngrwyd yn ffynonellau gweithgareddau a gwybodaeth.	PSD WBCD LLC MD WLD KUW	Trafod gyda'r plant lle y gallem ddysgu pethau a chyflwyno'r syniad o ffynonellau amrywiol, *e.e. gofyn cwestiynau, llyfrau, teledu, meddalwedd, rhyngrwyd, siarad â phobl etc.* Darllen stori o lyfr ac yna dangos y fersiwn o'r stori ar CD-ROM neu ar y rhyngrwyd. Mae BGRh yn ffordd dda o rannu hyn gyda grwpiau mawr o blant. Trafod gwahaniaethau a thebygrwyddau a thrafod y stori. Mae rhai straeon yn rhyngweithiol ar gyfrifiadur neu BGRh - trafod hyn gyda'r plant. Defnyddio gwefannau sy'n rhoi gwybodaeth syml ac yn dangos lluniau o e.e. anifeiliaid, tywydd, tymhorau, teganau, cartrefi, gwahanol ddiwylliannau etc. Gall staff helpu plant i archwilio'r safle ac i drafod yr wybodaeth sydd ar y wefan. Gellir gwneud hyn gyda CD-ROM a meddalwedd briodol. Siarad am allu dod o hyd i wybodaeth ar y cyfrifiadur a'r rhyngrwyd a hybu plant i holi cwestiynau syml am weithgaredd neu bwnc penodol.	lluniau geiriau rhifau gwybodaeth gwefan cwestiynau Rhyngrwyd Straeon CD-ROM	Llyfrau Cyfrifiadur CD-ROMs Rhyngrwyd Teledu	

Yn gallu defnyddio meddalwedd graffio/pictogram syml i gyfrif.		Creu "pictogram dynol" Gofyn i bob plentyn ddewis tedi un lliw o ddewis o bedwar lliw gwahanol. Amrywio cyfanswm pob lliw sydd ar gael i'r dosbarth er mwyn gwneud y graff yn fwy diddorol. Nesaf, gofynnwch i'r plant sefyll mewn rhesi yn ôl lliw'r tedi sydd ganddynt. O leoliad uwch, gallai'r athro/athrawes dynnu llun o'r dosbarth a defnyddio'r BGRh i drafod y ffotograff gyda'r plant e.e. Pam mae John yn sefyll yno? P'un yw'r rhes hwyaf/fyrraf? Gan sawl plentyn mae tedis glas? Gallai'r plant osod eu tedis ar y llawr nesaf i gyd-fynd â'r lleoliadau roedd y plant yn sefyll ynddynt o'r blaen. Yna, gellid tynnu llun o'r tedis a'u harddangos ar y BGRh. Gallai'r athro/athrawes wedyn drafod gyda'r plant unrhyw wahaniaethau/debygrwydd rhwng y ddau ffotograff. Gellid ategu'r weithgaredd hon drwy ofyn i'r plant greu tedis papur i gyfateb i'r ffotograff neu drwy ddefnyddio cymharu eirth, siapiau etc. Gellir atgynhyrchu'r math hwn o weithgaredd ar y sgrîn drwy ddefnyddio meddalwedd graffio/pictogram syml neu drwy lusgo a threfnu gwrthrychau i wneud pictogramau/graffiau ar y cyfrifiadur a'r BGRh. Gellid datblygu mwy o bictogramau ar gyfer lliw llygaid/gwallt, anifeiliaid anwes, dulliau trafnidiaeth i'r ysgol, etc. Byddai ffotograffau unigol o'r plant yn hwyluso'r cam o'r "pictogram dynol" i'r pictogram mwy haniaethol mewn llun/ar y cyfrifiadur. Gellid bwydo lluniau'r plant i feddalwedd	graff pictogram rhifau y rhan fwyaf rhai cyfrif	cerdyn lliw tedis ffotograffau plant camera BGRh meddalwedd pictogram meddalwedd generig sy'n caniatáu symud gwrthrychau ar y sgrîn i greu pictogram	

		pictogram briodol. Mae'n bwysig siarad â'r plant gan bwysleisio'r rhesymau dros leoliad y gwrthrychau yn y pictogram a defnyddio'r gweithgaredd i gyfrif yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylid hybu'r plant i ddatblygu sgiliau meddwl a llunio cwestiynau ac atebion am y pictogram a gweithio ar y cyd ag eraill.			